

BLEDRI (bu farw 1022), esgob Llandaf

Enw: Bledri

Dyddiad marw: 1022

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: esgob Llandaf

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: John Edward Lloyd

Ceir son amdano yn ' Liber Landavensis ' yn unig. Dywedir yno iddo gael ei ddewis yn 983 gan feibion [Morgan Hen](#) (bu farw 974) a thywysogion eraill, gyda chlerigwyr a phobl yr esgobaeth yn cydsynio, a chael (yn ddiweddarach, y mae'n ddiâu) gadarnhad Elfric, archesgob Caergaint. Un digwyddiad a groniclir yn ystod yr holl amser maith y bu'n esgob - mewn ymgyrch rhwng ei wyr ef a gwyr Edwin, brenin Gwent, fe'i clwyfwyd pan oedd yn ceisio cyfamodi rhwng y ddwy blaid; ysgymunwyd y brenin a'i filwyr ar unwaith gan synod a gosodwyd y tir o dan waharddiad. Cafwyd heddwch o'r diwedd ar delerau a gynhwysai roddi i Landaf dref fechan frenhinol y tybir mai Undy ydoedd.

Yn ' Brut Gwent ' rhydd [Edward Williams](#) ('Iolo Morganwg') glod fel ysgolhaig iddo a'i alw 'Y Doeth'; rhydd hefyd hanes gorchmynion Bledri ynglyn a sefydlu ysgolion ym mhob plwyf yn yr esgobaeth, a bu i fywgraffwyr diweddarach gopïo heb betruster yr holl ffugiadau hyn.

Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

Ffynonellau

The Text of the Book of Llan Dâv (Oxford 1893), 249-52

The Myvyrian Archaeology of Wales (1801-1807), ii, 505

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Bleddri](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18327439](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

